LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

24-01 (12)

**Eitem:** 16

**Teitl:** Diweddariad Systemau TG

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Er gwybodaeth |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys y papur hwn. |
| **Risg / Risk** | Mae seilwaith digidol Llais yn hanfodol i gefnogi cyflawniad effeithlon ac effeithiol ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau.<br><br>Mae'r papur hwn yn gysylltiedig â'r risgiau canlynol:<br><br>- **Gweithredu TG** - oedi wrth roi systemau TG ar waith yn atal staff rhag cyflawni eu rolau'n effeithiol ac yn effeithlon ac yn effeithio ar forâl staff. |
| **Cyllid / Finance** | Amh |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Blaenoriaeth 07 – Bod yn sefydliad uchelgeisiol sy'n cael ei redeg yn dda, y gellir ymddiried ynddo |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant / Equity, diversity and inclusion** | Amh |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Prif Weithredwr |

| | |
|---|---|
| **Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions** | Mae aelodau'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau TG rheolaidd. |
| **Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting** | Angela Mutlow, Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol. |
| **Dyddiad / Date** | 08.01.2024 |

## Cefndir / Background

Yn ystod cyfnod sefydlu Llais, hysbyswyd y Bwrdd nad oedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gallu cefnogi cyrff nad ydynt yn ymwneud â'r GIG. Oherwydd hyn gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer tendro i benodi darparwr gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth rhwydwaith digidol llawn i Llais. Dyfarnwyd y cytundeb i Centreprise ac mae gwaith wedi ei wneud i symud yr holl systemau TG drosodd i rwydwaith Llais.

Yn fuan ar ôl i Llais ddod yn weithredol, trosglwyddwyd yr holl gofnodion digidol perthnasol o'r cyn Gynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru i Llais. Trosglwyddwyd y rhain ar sail debyg am debyg, ar y ddealltwriaeth y byddai angen dylunio fframwaith rheoli cofnodion newydd gan ddefnyddio Microsoft Sharepoint i alluogi staff i rannu, golygu a storio dogfennau, yn ogystal â darparu 'Mewnrwyd' sefydliadol i gwrdd â newyddion un sefydliad cenedlaethol newydd.

Yn gynharach eleni dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu system Rheoli Perthynas Cwsmer (RhPC) ar gyfer Llais. Y bwriad yw y bydd y system yn cefnogi cynllunio, rheoli a chyflawni ein swyddogaethau a gwasanaethau craidd, yn ogystal â rhai gwasanaethau cymorth allweddol eraill gan gynnwys rheoli gweithgareddau staff a gwirfoddolwyr. Bydd y system yn cefnogi ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion, ymgysylltu â'r cyhoedd a swyddogaethau cynrychioli.

## Manylion / Detail

1. **RhPC**

Mae'r prosiect RhPC yn mynd rhagddo yn unol â'n cynllun prosiect y cytunwyd arno, gyda statws y prosiect yn dangos gwyrdd.

Mae'r tîm ar hyn o bryd yn gweithio ar gamau olaf y prosiect sy'n cynnwys:

- Mudo ein data eiriolaeth cwynion byw a chaeedig
- Rhaglen hyfforddi staff, sy'n cynnwys yr hyfforddiant ar gyfer nifer o 'uwch ddefnyddwyr' enwebedig.
- Datblygu a darparu canllawiau defnyddwyr
- Trefniadau ar gyfer contract cymorth.

Gwiriad Iechyd TG RhPC

Mae gwiriad iechyd TG ar y datblygiad RhPC newydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Bydd unrhyw faterion a amlygir yn cael eu hymchwilio'n llawn ac yn cael eu datrys cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl. Bydd cynnydd pellach yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

Hyfforddiant Staff

Bydd staff yn derbyn eu hyfforddiant defnyddiwr o fewn yr un wythnos y mae'r swyddogaeth y maent yn gweithio ynddi yn mynd yn fyw.

Llinell Amser Mynd yn Fyw

| **Ffwythiant** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Mudo eiriolaeth (achosion anweithredol) | 30 Ion – 8 Chwe |
| Ffwythiant staff a gwirfoddolwyr yn mynd yn fyw | 9 Chwefror |
| Ffwythiant ymgysylltu yn mynd yn fyw | 15 Chwefror |
| Ffwythiant cynrychiolaeth yn mynd yn fyw | 15 Chwefror |
| Mudo eiriolaeth (achosion gweithredol) | 13-20 Chwefror |

| | |
|---|---|
| Ffwythiant eiriolaeth yn mynd yn fyw | 21 Chwefror |

## 2. Gwasanaeth defnyddiwr terfynol

Mae rhaglen waith y defnyddiwr terfynol bellach yn dirwyn i ben.

Mae'r gwaith canlynol yn dal heb ei wneud:

- Contract cymorth switsh rhwydwaith. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda Centreprise i ddatblygu contract cymorth. Mae'r gwaith hwn yn dibynnu ar Centreprise ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

- Virgin Media i gadarnhau newid gwasanaethau ar gyfer swyddfa ranbarthol Castell-nedd Port Talbot.

## 3. SharePoint

Mae Llais wedi recriwtio aelod o staff dros dro i arwain y prosiect i ddatblygu ein system rheoli cofnodion newydd – SharePoint, yn ogystal â datblygu ein tudalennau Mewnrwyd ymhellach.

Mae rhaglen waith cynlluniedig wedi'i datblygu a'i chytuno. Mae’r cam cyntaf ar y gweill ac mae’n canolbwyntio ar y Swyddfa Genedlaethol a chofnodion Cymru gyfan.

Mae hyfforddiant staff ar system Sharepoint yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau erbyn diwedd Ionawr 2024.